# Yn ôl i'r Coleg – Cylchlythyr Tymor yr Hydref 2025

# Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (GChDDP)

Annwyl Gydweithwyr,

Croeso nôl! Wrth i ni ddechrau'r flwyddyn academaidd 2025–26, hoffem ddiolch i chi am eich ymroddiad parhaus i gyflwyno profiadau dysgu o ansawdd uchel mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. Rydym yn falch o rannu diweddariadau pwysig, adnoddau a chyfleoedd i'ch cefnogi chi i gyflwyno'r cymhwyster y tymor hwn.

## 🎉 Dathlu Llwyddiant yr Haf

• Canlyniadau Rhagorol
Llongyfarchiadau i'r holl ganolfannau a dysgwyr ar haf llwyddiannus arall! Mae'r hyn rydych chi wedi'i gyflawni yn dyst i'ch gwaith caled a'ch arbenigedd.

• Adborth y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol
Mae ein tîm sicrhau ansawdd allanol wedi rhannu adborth rhagorol ar gyflwyniadau'r Uned 332 newydd, gan dynnu sylw at arferion asesu a lefelau uchel o ymgysylltu â dysgwyr.

## 📓 Diweddariadau ar Gymwysterau ac Asesu

• Uned 332 - Deunyddiau Cymorth
Mae templedi asesu newydd bellach ar gael i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ac asesu Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Uned 332 : Ymarfer a Theori (i'w ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2025)

• Uned 216 - Newidiadau i'r arholiad
O fis Ionawr 2026, bydd Uned 216 yn newid i fformat arholiad sy'n seiliedig ar astudiaethau achos. Mae deunyddiau asesu enghreifftiol a chanllawiau i'w gweld ar

wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru. Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

• Adroddiadau Sicrhau Ansawdd Allanol Haf 2025
Mae adroddiadau sicrhau ansawdd allanol bellach ar gael trwy'r system Cyswllt. Mae'r rhain wedi'u symleiddio i roi adborth cyfunol ar draws holl gymwysterau CBAC.

• Sicrhau Ansawdd Allanol - Holiadur Adborth
Mae eich mewnbwn yn werthfawr i ni! Cwblhewch ein holiadur adborth sicrhau ansawdd allanol i'n helpu ni i wella gweithgarwch sicrhau ansawdd allanol yn y dyfodol.
https://forms.office.com/e/7TZ97FYBRT?origin=lprLink

• Ymweliadau Archwilio **GChDDP** Craidd
Bydd ymweliadau archwilio sicrhau ansawdd allanol craidd yn ailddechrau o fis Medi 2025. Bydd eich swyddog sicrhau ansawdd allanol yn cysylltu â chi i drefnu dyddiad addas.
👉 Sylwer: Bydd pob ymweliad yn cynnwys samplu o bell am hanner diwrnod ar gyfer pob coleg yn hytrach na phob campws.

## 🧑 🏫 Datblygiad Proffesiynol a Rhwydweithio

• Digwyddiadau Rhwydweithio yr hydref
Bydd ein Digwyddiadau Rhwydweithio Colegau Addysg bellach yn cael eu cynnal ym misoedd Hydref a Thachwedd 2025. Gallwch nawr gadw lle ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru. Hyfforddiant a Digwyddiadau i ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

👉 Peidiwch ag anghofio dod â sampl o Uned 332 i'w gyflwyno, i gefnogi safoni a rhannu arfer da â chydweithwyr.

Diolch am eich partneriaeth barhaus ac am ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o weithwyr gofal plant proffesiynol. Edrychwn ymlaen at gydweithio â chi dros y flwyddyn.

Cofion cynnes
Tîm Cymwysterau CBAC **GChDDP**

# Cysylltwch â ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni trwy'r dull arferol.
ccpld@wjec.co.uk
Rhif ffon: 02922 404265